Prosbectws

2026–2027

YSGOL GYMRAEG COED-Y-GOF

Croeso i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof

Yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, mae cynhwysiant, lles a chymuned wrth galon popeth a wnawn.

Rydym yn meithrin gallu a thalent unigryw pob plentyn, gan ddarparu cwricwlwm ysbrydoledig sy'n datblygu dysgwyr anturus, creadigol a hyderus trwy ymchwilio a chwestiynu.

Mae'n bwysig fod pob plentyn yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi ac yn cyrraedd ei botensial.

Rydym yn falch o fod yn ysgol sy'n dathlu cydweithio, parchu eraill a'r iaith Gymraeg, a lle mae pawb yn perthyn.

Cofion cynnes,

Ms Carys Prytherch, Pennaeth



Ein cymuned

Mae Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ym Mhentrebaen, Gorllewin Caerdydd.

Rydym yn croesawu teuluoedd o Bentrebaen, Treláí, Caerau, Tyllgoed, Sain Ffagan a'r ardaloedd cyfagos.

Mae ein cymuned yn amrywiol a chroesawgar. Rydym yn dathlu amrywiaeth, teimlad o berthyn, iaith, diwylliant a hunaniaeth Gymraeg.



Parch Parodrwydd Perthyn

YSGOL GYMRAEG
COED-Y-GOF

Pobl, partneriaeth a diwrnod ysgol



Athrawon Dosbarth – Pwy yw pwy?

Pennaeth	Carys Prytherch
Pennaeth Mewn Gofal a CADY	Laura Casey
Dirprwy Bennaeth Dros Dro	Elin Jones
Pennaeth Dysgu Sylfaen	Fran Davies
Masarnen	Elin Jones Mabon Edwards
Castanwydden	Ffion Morgans
Sycamorwydden	Non Rivers
Collen	Sioned Jones
Ywen	Manon Davies
Derwen	Aimee Meyer
Mês	Fran Davies
Enfys	Jess Murphy
Bedwen	Anna Jones
Onnen	Alun Evans
CPA	Becky McConnell Gareth Roberts

Drws agored

Mae croeso i bob rhiant a gwarcheidwad gysylltu â'r ysgol. Gallwch ffonio, alw heibio neu wneud apwyntiad gyda'r pennaeth neu'r athrawon - rydym yn hapus i wrando ac i helpu.

Ffrindiau Coed-y-Gof

Ein cymdeithas rhieni ac athrawon yw Ffrindiau Coed-y-Gof. Maent yn weithgar, yn croesawu pob teulu newydd ac yn trefnu digwyddiadau hwyl i godi arian a chreu cymuned gref. Byddem wrth ein bodd yn eich croesawu i ymuno!

Oriau ysgol

Bore	8.55yb – 12.00yp
Prynhawn	12.00yp – 3.10yp
Clwb Brecwast	8.10yb – 8.40yb

Mae Clwb Brecwast AM DDIM i bawb. Rhaid cofrestru trwy'r swyddfa.

Cludiant ysgol

Mae bysiau arbennig yn gwasanaethu Trelái a Chaerau, gyda gwarchodwr bws ar bob taith. Gellir gysylltu ag Adran Cludiant Ysgol y Cyngor (**02920 872942**) i gadarnhau a ydynt yn gymwys i gael cludiant.

Dysgu, chwilfrydedd a Chwricwlwm i Gymru

Mae rhyfeddu, cwestiynu, archwilio a myfyrio wrth wraidd y dysgu yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof.

Pedwar Diben Chwricwlwm i Gymru

- dysgwyr **uchelgeisiol, galluog**
- unigolion **iach, hyderus**
- cyfranwyr **mentrus, creadigol**
- dinasyddion **moesol, gwybodus**

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Celfyddydau Mynegiannol
- Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Gwyddoniaeth a Thechnolog
- Mathemateg a Rhifedd
- leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Ein dull dysgu drwy ymchwilio

Mae ein dysgu wedi'i seilio ar chwilfrydedd, ymchwilio a chreu cysylltiadau ystyrlon. Rydym yn dilyn **Cylch Kath Murdoch:**

1. Ymgysylltu
2. Darganfod
3. Dosbarthu
4. Symud Ymhellach
5. Myfyrio a Gwerthuso
6. Gweithredu

Addysg cyfrwng Cymraeg a throchi iaith

Rydym yn ysgol Gymraeg lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw a naturiol bob dydd. Mae'r plant yn cael eu hymgorffori yn y Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.

Gweithgareddau a phrofiadau allweddol

- Addysg Gofforol pob wythnos
- Nofio i flynyddoedd 4 a 5
- Gweithgareddau awyr agored a heriol i flwyddyn 5
- Taith Preswyl i Storey Arms i flwyddyn 5
- Taith Preswyl i Langrannog i flwyddyn 6
- Clybiau amrywiol ar ôl ysgol sy'n newid yn rheolaidd

Asesu a chyflwyno gwybodaeth i rieni

- Arsylwadau parhaus, trafodaethau, cwestiynu a thysiolaeth o ddysgu
- Asesiadau mewnol yr ysgol
- Asesiadau Personol Cenedlaethol mewn darllen a rhifedd
- Sesiynau trafod rheolaidd gyda rhieni
- Adroddiadau blynyddol i rieni

Lles, cynhwysiant a diogelwch



Ein nod yw i bob plentyn deimlo'n ddiogel, cael ei werthfawrogi a derbyn y cymorth iawn i ffynnu yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Arweinydd ADY:
Mrs Laura Casey (CADY)

- Rydym yn adnabod anghenion yn gynnar ac yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i sicrhau'r gefnogaeth orau.
- Darperir cymorth yn y dosbarthiadau prif ffrwd lle bo'n bosibl, trwy wahaniaethu, adnoddau ychwanegol a chefnogaeth oedolion.
- Pan fo angen, rydym yn cydweithio a gwasanaethau allanol er mwyn sicrhau strategaethau arbenigol a chynlluniau unigol i bob dysgwr.
- Mae ein dosbarthiadau addysg arbenigol yn darparu amgychleddau diogel a chynhaliol gyda staff medrus, ac yn rhoi cyfleoedd priodol i weithgareddau'r brif ffrwd yr ysgol pan fo hynny'n addas.

Yr Enfys	Yn cefnogi lles emosiynol plant o'r Derbyn i flwyddyn 2.
Y Cwtch	Yn cefnogi plant o Flwyddyn 3-6 gyda llythrennedd, rhifed a lles emosiynol ychwanegol.
Onnen	Dosbarth adnodd arbenigol ar gyfer plant 7-11 oed sydd ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.
Bedwen	Dosbarth adnodd arbenigol ar gyfer plant 2-7 oed sydd ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

- Lle bo'n briodol, caiff lleoliadau Ddosbarth Onnen a Bedwen eu penodi gan yr Awdurdod Leol drwy broses Cais Darpariaeth Arbennig. Mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi fel aelod llawn o'n cymuned ysgol ac yn cael cyfleoedd yn y brif ffrwd pryd bynnag y bo'n addas.

Cyfleoedd cyfartal ac hygyrchedd

Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb ac yn sicrhau fod ein hamgylchedd a'n cyfathrebu mor gynhwysol a phosibl. Rydym yn croesawu anghenion, cefnogi amrywiaeth ac yn dathlu'r hyn sy'n unigryw am bob un ohonom.

Iechyd a diogelwch

- Cadwch eich plentyn adref os ydynt yn sâl, a rhowch wybod i'r ysgol. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd eich plentyn yn sâl.
- Os bydd damwain neu os bydd plentyn yn taro ei ben, byddwn yn rhoi gwybod i chi a thrafod y camau priodol.
- Os oes salwch heintus, rhaid cadw'ch plentyn gartref tan ddaw'r cyfnod eithrio i ben yn unol a chanllawiau'r Iechyd Cyhoeddus.
- Gall nyrs yr ysgol wneud profion iechyd pan fo angen a byddwn yn rhoi gwybod i chi canlyniadau y profion yma.
- Dim ond meddyginiaeth wedi'i rhagnodi gallwn roi i'ch plentyn, ac mae'n rhaid llenwi'r ffurflen berthnasol.
- Rhowch wybod i ni am unrhyw alergeddau neu anghenion maethol.
- Rydym yn ysgol heb gnau – peidiwch â chynnwys cynhyrchion sydd â chnau yn fwyd na byrbrydau.
- Gwiriwch gwallt eich plentyn yn rheoladaidd am lau. Rhowch wybod i'r ysgol am unrhyw achosion llau er mwyn rhoi gwybodaeth briodol i deuluoedd.
- Os oes asthma gan eich plentyn, sicrhewch fod pwmp wedi'i labelu yn yr ysgol (yn y swyddfa), gyda'r ffurflen berthnasol wedi'i chwblhau.
- Mewn tywydd heulog, sicrhewch bod dŵr, het haul ac eli haul ffactor uchel gyda'ch plentyn a byddwn yn sicrhau fod eich plentyn yn cael cysgod yn ystod y dydd.
- Mae gennym nifer o staff sydd â chymwysterau cymorth cyntaf ac rydym yn dilyn polisiau diogelwch llym.

Mae lles a diogelwch ein disgyblion yn hollbwysig. Os oes gennych unrhyw bryderon, cysyltwch ag un o'n Swyddogion Diogelu Dynodedig.

Ms Carys Prytherch	Swyddog Diogelu Dynodedig
Mrs Laura Casey	Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig
Mrs Elin Jones	Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig
Mrs Llinos Bradbury	Llywodraethwr Diogelu

Gwybodaeth ymarferol i deuluoedd

GWISG YSGOL

Gwisg ddyddiol

- Hwdi neu siwmper goch
- Crys polo gwyn neu goch
- Trowsus neu sgert lwyd
- Haf - Ffrog goch a gwyn
- Esgidiau neu drainyrs du

Gwisg chwaraeon

- Crys-T - plaen gwyn neu liw llys ysgol
- Siorts/legins/tracwist du
- Trainers du

- Gwisg swyddogol ar gael o YC Sports neu K&M Embroidery.
- Stydiau bach yn unig – dim mwclys na breichledau.
- Labelwch bob dilledyn gyda enw eich plentyn
- Gwisg ysgol ail-law am ddim ar gael o'r swyddfa.

PRYDAU A BYRBRYDAU

Prydau ysgol drwy ParentPay. Dewiswch bob dydd cyn 8.00am.

Ffrwyth bob dydd i bawb.

Llaeth i bawb o'r Feithrin i Flwyddyn 2.

Byrbrydau iach yn unig os gweiwch yn dda.

CASGLU, PRYDLONDEB AC ABSENOLDEB

- Rhowch wybod i'r swyddfa cyn 2.30pm os bydd rhywun arall yn casglu.
- Rhowch wybod am absenoldebau a'r rhesymau.
- Nid yw gwyliau yn ystod amser ysgol yn cael eu hawdurdodi.
- Arwyddwch eich plant i mewn ac allan os ydynt yn cyrraedd neu'n gadael yn ystod y diwrnod ysgol.
- Ceiswich osgoi apwyntiadau meddygol yn ystod amser ysgol.

CWYNION

Rydym yn trin cwynion mewn tair cam:

1. Trafodaeth anffurfiol gyda'r ysgol.
2. Cwyn ffurfiol i lywodraethwyr yr ysgol.
3. Cwyn ffurfiol i'r awdurdod addysg.

POLISI CODI ARIAN

- Ein príf egwyddor: ymweliadau addysgol sy'n fforddiadwy i bawb.
- Gofynnwn am gyfraniadau gwirfoddol.
- Ni chodir am addysg yn y dosbarth.
- Gofynnwn am ganiatád rhieni/gofalwyr

CLASS DOJO

Rydym yn defnyddio ClassDojo fel prif arf cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol. Trwy ClassDojo, gall rhieni a gofalwyr dderbyn newyddion yr ysgol, cylchlythyrau a diweddariadau am ddigwyddiadau a gweithgareddau, yn ogystal â chyfathrebu'n uniongyrchol â'r staff pan fo angen. Mae'n ein helpu i gynnal partneriaethau cryf â theuluoedd a sicrhau bod pawb yn cael gwybod am fywyd yr ysgol.

ARBOR

Rydym yn defnyddio Arbor, ein porth ar-lein i rieni, i helpu teuluoedd i gadw mewn cysylltiad â bywyd yr ysgol. Trwy Arbor, gall rhieni a gofalwyr roi gwybod am absenoldebau, trefnu apwyntiadau nosweithiau rhieni, cofrestru ar gyfer clybiau a gweithgareddau, a derbyn gwybodaeth a chyfathrebiadau pwysig gan yr ysgol.

Gwybodaeth ymarferol i deuluoedd

SOCIAL MEDIA

@coedygof
(Facebook)
Celebrating achievements and relevant information on school life in Ysgol Coed-y-Gof.

Ffrindiau Coed-y-Gof PTA
(Facebook)
Information on upcoming events and fundraising efforts

@ysgol.coedygof
(Instagram)
Celebrating achievements and relevant information on school life in Ysgol Coed-y-Gof.

@y_caban_
(Instagram)
A Welsh-medium wellbeing and additional learning needs (ALN) provision.



Ysgol Gymraeg Coed y Gof

Beechley Drive,
Pentrebaen, Caerdydd, CF5 56

02920 564585

ysgolcoedygof@caerdydd.gov.uk

Pennaeth
Ms Carys Prytherch

Pennaeth Mewn Gofal
Mrs Laura Casey

Dirprwy Bennaeth
Mrs Elin Jones

Cadeirydd y Llywodraethwyr
Mrs Linos Bradbury

Gweinyddwyr
Miss Natalie Owen
Miss Kelly Page